

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2023 Rhif 292 (Cy. 43)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

Rheoliadau Gofal a Chymorth  
(Asesiadau Poblogaeth) (Cymru)  
(Diwygio) 2023

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau"), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiadau poblogaeth.

Mae rheoliad 4 o'r prif Reoliadau yn darparu bod rhaid i gyrff cyfrifol, wrth gynnal asesiad poblogaeth, ymgysylltu â sefydliadau sector preifat penodol neu sefydliadau trydydd sector penodol. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau fel bod rhaid i gyrff cyfrifol ymgysylltu hefyd ag unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, i'r boblogaeth leol. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn mewnosod diffiniadau perthnasol at y dibenion hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2023 Rhif 292 (Cy. 43)**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU**

**Rheoliadau Gofal a Chymorth  
(Asesiadau Poblogaeth) (Cymru)  
(Diwygio) 2023**

*Gwnaed* 9 Mawrth 2023

*Gosodwyd* *gerbron* *Senedd*  
*Cymru* 10 Mawrth 2023

*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 14(1) a (2) a 198(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1).

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

**Diwygiadau i Reoliadau Gofal a Chymorth  
(Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015**

2.—(1) Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (ymgysylltu â'r sector preifat a'r trydydd sector)—

(a) yn lle'r pennawd, rhodder—

“4. Ymgysylltu â'r sector preifat, y trydydd sector a chyrrff cyhoeddus”;

---

(1) 2014 dccc 4.

(2) O.S. 2015/1367 (Cy. 135).

(b) ym mharagraff (1), yn lle “neu unrhyw sefydliad trydydd sector sy’n ymwneud â, neu sy’n ymddiddori mewn,” rhodder “, unrhyw sefydliad trydydd sector neu unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â” ac o flaen y geiriau “i’r boblogaeth leol” mewnosoder “, neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol,”;

(c) yn lle paragraff (2), rhodder—

“(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr “corff cyhoeddus” (“*public body*”) yw corff (pa un a yw’n gorfforedig neu’n anghorfforedig) sy’n arfer swyddogaethau cyhoeddus. At ddiben y diffiniad hwn, mae swyddogaeth gyhoeddus yn swyddogaeth sy’n swyddogaeth o natur gyhoeddus at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998(1);

mae i “sefydliad trydydd sector” (“*third sector organisation*”) yr un ystyr ag yn adran 16(2) o’r Ddeddf(2).”.

*Eluned Morgan*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
9 Mawrth 2023

---

(1) 1998 p. 42.

(2) Yn adran 16(2) o’r Ddeddf, ystyr “sefydliad trydydd sector” yw sefydliad y gallai person famu’n rhesymol ei fod yn sefydliad sy’n bodoli’n gyfan gwbl neu’n bennaf i ddarparu buddion i’r gymdeithas.